# Adroddiad Adolygiad Annibynnol MAPF

# Ysgol Dyffryn Aman

## Cyhoeddwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin, mewn cydweithrediad â phartneriaid rhanbarthol y Bwrdd Diogelu

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod MAPF: | CYSUR 2 2024 |
| Awdur yr Adroddiad: | Gladys Rhodes White OBE, Adolygydd Annibynnol |
| Dyddiad y Digwyddiadau Dysgu: | 15 Gorffennaf 2025 |
| Dyddiad cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol Lleol (LOG): | Cadarnhawyd yn ffurfiol yn LOG Sir Gaerfyrddin ar 19 Awst 2025 |

## 1. Proses MAPF

Yn unol â'r canllawiau perthnasol y cyfeirir atynt yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu fel rhan o Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF). Mae Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSRs) a MAPFau wedi'u nodi o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn benodol yn y Canllawiau Statudol ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024.

Yn unol â'r broses ranbarthol y cytunwyd arni, a gadarnhawyd gan Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR), cyflwynwyd atgyfeiriad i'r Is-grŵp Adolygu Achosion ar 25 Medi 2024, a'r canlyniad oedd cytuno i gynnal MAPF.

Nid oedd yr achos hwn yn bodloni'r trothwy ar gyfer SUSR, gan mai plentyn A yw'r troseddwr honedig yn yr achos hwn yn hytrach na dioddefwr. Nodwyd hefyd nad oeddid yn credu bod dioddefwyr y digwyddiad mewn perygl o gael eu cam-drin na'u hesgeuluso. Cytunwyd fodd bynnag fod posib dysgu o'r achos hwn, a byddai'n fuddiol i'r achos gael ei ystyried mewn Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol. Cytunodd yr is-grŵp yn unfrydol i argymell MAPF, a gytunwyd gan Gadeirydd CYSUR, Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae'r MAPF hwn wedi'i gynnal o ganlyniad uniongyrchol i'r argymhelliad hwnnw; bydd yn canolbwyntio'n llwyr ar nodi unrhyw wersi a ddysgwyd ac ar ddefnyddio'r rhain i lunio argymhellion a chamau gweithredu.

Oherwydd diddordeb mawr y cyhoedd ac oherwydd difrifoldeb y digwyddiad, cytunwyd gan y panel y byddai adolygydd annibynnol yn dod â dimensiwn beirniadol ac annibynnol defnyddiol i'r adolygiad. Yr adolygydd annibynnol yw awdur yr adroddiad hwn ac mae wedi gweithio'n agos gyda'r panel ac wedi trefnu digwyddiad dysgu i reolwyr ac ymarferwyr.

## 2. Cefndir a chrynodeb o gyfranogiad asiantaethau

Roedd yr adolygiad hwn yn ystyried person ifanc a oedd, ar adeg y digwyddiad critigol, yn dair ar ddeg oed ac yn byw gartref gyda'i thad, partner ei thad a'i brawd. Mae'n cael cysylltiad â'i mam geni. Roedd plentyn A yn ddisgybl yn ysgol A, lle digwyddodd y digwyddiad critigol.

Ar 24 Ebrill 2024, roedd plentyn A ar safle'r ysgol yn y maes chwarae pan fu anghytuno rhyngddi hi ag aelod o staff a arweiniodd at drywanu dau athro ac un cyd-ddisgybl â gwrthrych llafnog yr oedd hi wedi mynd ag ef i'r ysgol gyda hi. Daeth trydydd athro i'r fan, ac ar ôl yr ymosodiad ar y disgybl llwyddodd i rwystro plentyn A, gan atal unrhyw niwed pellach. Dilynodd yr ysgol weithdrefnau cyfyngiadau symud brys, galwyd y gwasanaethau brys, a chafodd plentyn A ei arestio.

Mae'r adolygiad hwn wedi digwydd ar ôl treial troseddol, lle cafwyd plentyn A yn euog ar dri chownt o geisio llofruddio. Ar 28 Ebrill 2025, dedfrydwyd plentyn A i 15 mlynedd o garchar am y tri chownt o geisio llofruddio. Ar hyn o bryd mae hi'n cael ei chadw mewn uned ddiogel.

## 3. Amserlen

Roedd y MAPF a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 24 Ebrill 2022 a 24 Ebrill 2024. Dyma'r cyfnod o ddwy flynedd cyn y digwyddiad. Cytunwyd ar yr amserlen hon er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion allweddol yn cael eu dysgu ar draws yr asiantaethau perthnasol. Fel mewn llawer i achos, mae yna wybodaeth sylweddol y tu allan i'r amserlen sy'n berthnasol

i ddeall plentyn A, ei hanes a'i hymgysylltiad â gwasanaethau. Mae'r wybodaeth gyd-destunol hon wedi'i cheisio cyn, ac fel rhan o'r digwyddiad dysgu, i helpu i lywio dealltwriaeth a dadansoddi.

Trafodwyd yr amserlen a gyflwynwyd gan yr holl asiantaethau yn fanwl yn ystod y digwyddiad dysgu. Cafodd gweithwyr proffesiynol gyfle i rannu rhagor o wybodaeth a gofyn cwestiynau i'w gilydd, yn ogystal â thrafod a cheisio eglurhad ar unrhyw bwyntiau perthnasol o ddiddordeb.

Cyn yr amserlen, ym mis Tachwedd 2021, cyflwynwyd ffurflen atgyfeirio amlasiantaethol gan ysgol plentyn A ar y pryd, a oedd yn nodi pryderon bod dryll BB gan blentyn A yn ei bag ysgol. Cafodd atgyfeiriad ei wneud hefyd i'r Tîm Ymyrraeth Gynnar, gyda chaniatâd tad plentyn A, gan iddo rannu bod plentyn A yn ei chael hi'n anodd dysgu drwy'r Gymraeg. Mae'r tad hefyd yn nodi ei bod hi’n aros am asesiad ASD.

Ym mis Medi 2022, mae plentyn A yn ymuno ag ysgol newydd (ysgol A). Mae rhai materion mewn perthynas â gwisg anghywir yn cael eu cofnodi yn y tymor cyntaf, ac yn 2023, mae swyddog Presenoldeb a Phrydlondeb yr ysgol yn ymweld â thad plentyn A gartref i drafod y problemau. Ym mis Mai 2023, nodir bod plentyn A wedi bygwth defnyddio cyllell ar ddisgybl arall, a chytunir gyda'i thad i gynnal gwiriadau bag. Daethpwyd o hyd i gofiannau rhyfel ym mag plentyn A.

Ym mis Medi 2023, wrth chwilio bag plentyn A yn dilyn digwyddiad ymddygiadol yn nhoiledau'r ysgol, canfuwyd cyllell. Dywedodd Plentyn A ei bod hi'n cario'r gyllell er ei diogelwch ei hun oherwydd rhywbeth oedd wedi digwydd ar y bws ysgol. Cysylltir â'r Heddlu, a chynhelir cyfarfod strategaeth. Cytunir ar waharddiad dros dro am bedwar diwrnod, a chysylltir â'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid am gyngor, a gafodd ei roi.

Mae’r tad yn cytuno i atgyfeiriad at EVOLVE, sy'n brosiect sy'n darparu cymorth a chefnogaeth i bobl ifanc ag iechyd meddwl gwael, ac mae’n cytuno ei bod hi’n derbyn cymorth a chefnogaeth yn yr ysgol. Mae’r tad yn cytuno i wirio bag plentyn A bob dydd cyn yr ysgol, gyda'r ysgol hefyd yn cynnal gwiriadau’n rheolaidd. Cynigiwyd cymorth cwnsela ond gwrthodwyd hynny, a chytunwyd y byddai Addysg yn mynd ar drywydd y mater ac yn gweithredu atgyfeiriad mewn perthynas ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD).

Ym mis Tachwedd 2023, ymwelir â phlentyn A yn yr ysgol ar gyfer Asesiad Gofal a Chymorth gan nad yw’r tad yn cydsynio i ymweliad cartref, a theimlir bod yr ysgol mewn sefyllfa well i ddarparu cymorth iddi. Nodir ar y pwynt hwn bod plentyn A fel petai wedi setlo’n well ers symud dosbarth, ac mae'r ysgol yn cytuno i ddarparu cymorth llesiant. Mae'r Asesiad Gofal a Chymorth yn cael ei gau ddiwedd 2023, ar ôl ystyried y digwyddiad yr oedd plentyn A wedi'i brofi, ei dymuniadau a'i theimladau ei hun, a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod cynharach yr oedd wedi eu cael.

Nid oes unrhyw bryderon yn cael eu nodi yn yr ysgol na chan unrhyw asiantaeth arall tan y digwyddiad yn ysgol A ym mis Ebrill 2024.

## 4. Safbwynt y teulu

Un o brif egwyddorion canllawiau MAPF yw bod yn dryloyw a darparu cyfleoedd i'r teulu gyfrannu at y broses. Mae hyn yn golygu, lle bynnag y bo modd, ein bod yn ymgysylltu â'r teulu ac yn ystyried eu dymuniadau a'u safbwyntiau. Yn yr achos hwn dim ond tad plentyn A oedd ar gael ac yn barod i gael ei gyfweld. Darparwyd sawl cyfle i blentyn A gymryd rhan yn y broses

MAPF; fodd bynnag, nid oedd plentyn A eisiau cymryd rhan. Rhannwyd ac archwiliwyd y wybodaeth roddwyd gan dad plentyn A yn y trafodaethau yn y digwyddiad dysgu ac fe'i hadlewyrchir isod.

Bydd cynnwys yr adroddiad hwn yn cael ei rannu â'r teulu ac oherwydd bod diddordeb mawr gan y cyhoedd, bydd yn cael ei gyhoeddi. Mae'r Panel yn ddiolchgar am y mewnbwn gan dad plentyn A, ac yn sylweddoli pa mor anodd yw hi i'r teulu ddelio â thrawma a chanlyniadau'r digwyddiad a gorfod ail-fyw'r peth at ddibenion yr adolygiad.

Estynnodd yr Adolygydd Annibynnol wahoddiad i gwrdd â thad plentyn A i'w alluogi i gyfrannu at yr adolygiad. Yn anffodus, nid oedd ymdrechion i gysylltu â mam plentyn A i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr adolygiad yn llwyddiannus. Cyfarfu'r adolygydd â thad plentyn A a'i bartner i ystyried beth ddigwyddodd, i glywed ei safbwynt ef ar y digwyddiad, ac i archwilio beth, os unrhyw beth o gwbl, allai fod wedi atal plentyn A rhag cyflawni'r troseddau hyn. Roedd hefyd yn gyfle i ddysgu mwy am blentyn A a'i chefndir ac i archwilio profiad y teulu o wasanaethau.

**Persbectif a Sylwadau Teulu – Tad Plentyn A**

- Roedd tad Plentyn A yn teimlo bod gwasanaethau wedi gadael plentyn A a'r teulu i lawr. Disgrifiodd achlysuron pan geisiodd gael help i blentyn A ddelio â'i phroblemau emosiynol ac ymddygiadol, ac roedd yn teimlo nad oedd unrhyw un o'r gwasanaethau yn deall plentyn A a'i hanghenion.
- Disgrifiodd tad Plentyn A ei bryderon ynghylch plentyn A yn cael ei bwlio ac ynghylch niwroamrywiaeth posibl ac roedd yn teimlo nad oedd y gwasanaethau'n ymdrin â'r pryderon hyn. Disgrifiodd blentyn A fel un ag arwyddion o Awtistiaeth yn ei hymddygiad, er enghraifft hwyliau isel, tics, cerdded ar fodiau'i thraed, cracio bysedd, hunan-niweidio a dianc trwy 'straeon gwneud', fel dweud ei bod yn gallu siarad Almaeneg a Rwseg. Cafodd plentyn A ei hatgyfeirio gan y meddyg teulu at CAMHS, ond dywed y tad na chafwyd dim cymorth yn dilyn yr atgyfeiriad hwnnw. Roedd hyn ar yr adeg pan oedd cyfyngiadau COVID ar waith.
- Mae'r tad yn teimlo mai dim ond ers ei heuogfarn mae hi wedi dechrau cael help.
- Siaradodd tad Plentyn A am brofiadau bywyd cynnar plentyn A ac am rywfaint o'r trawma ddaeth i'w rhan oherwydd iddo ef a mam geni plentyn A wahanu, a phrofiadau negyddol roedd plentyn A a'i brawd wedi bod trwyddynt bryd hynny ac ers hynny, a oedd yn cynnwys trais tuag ato ef gan bartner arall. Roedd yn cydnabod bod plentyn A wedi dioddef oherwydd ei ddewisiadau o ran perthnasoedd a dirywiad y rheiny.
- Roedd tad Plentyn A yn teimlo ei fod wedi bod yn gymharol gyson o ran gwirio bagiau fel rhan o'r cynllun y cytunwyd arno ar ôl gwahardd plentyn A dros dro, ond roedd yn edifar ganddo nad oedd wedi gallu gwirio ei bag ar ddiwrnod y digwyddiad, gan ei bod hi wedi gadael gartref yn gynnar y bore hwnnw. Roedd yn teimlo *"bod asiantaethau heb wrando arna' i na fy mhlentyn pan oedd angen help arnon ni*."
- Mae tad Plentyn A yn gobeithio y gall yr adolygiad gydnabod y cyfleoedd a gollwyd i helpu plentyn A a bydd pethau'n gwella oherwydd yr adolygiad hwn.

- Disgrifiodd y tad blentyn A fel '*merch ddisglair glyfar, sy'n ffraeth, yn "show off", yn hoffi darlunio ac ysgrifennu, ac sydd bob amser yn barod i 'sefyll lan dros ei ffrindiau a'i theulu'. Mae hi'n ei dweud hi fel y mae ac yn aml yn cael ei chamddeall - nid pawb sy'n deall ei hiwmor."* Roedd y tad yn teimlo bod y Llys yn anghywir i ddweud ei bod hi heb ddangos unrhyw dosturi, oherwydd pan welodd ef hi gyntaf ar ôl y digwyddiad, ymddiheurodd iddo ac roedd hi wedi ypsetio'n fawr am beth oedd wedi digwydd.

## 5. Safbwyntiau'r dioddefwyr

Cyfarfu'r Adolygydd Annibynnol â'r ddau ddioddefwr sy'n oedolyn a'r athro a wnaeth ymyrryd i rwystro plentyn A. Mae aelodau'r Panel yn hynod ddiolchgar am y dewrder a ddangoswyd gan y tri athro, a rannodd eu profiadau mewn ffordd agored a gonest, a chynnig myfyrdodau ar ddysgu, er gwaethaf y trawma maent yn dal i geisio dod i delerau ag ef.

Disgrifir Plentyn A fel *"mympwyol, tipyn o rebel pan mae'n dod i'w gwisg, ac un sy'n cael trafferth gwneud ffrindiau".*

Roedd Plentyn A yn cael ei hystyried yn ddysgwr galluog ac er nad oedd ganddi gynllun dysgu unigol, roedd hi ar restr o ddisgyblion oedd yn hysbys i'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo). Roedd y cydlynydd yn y broses o adolygu pob un o'r 109 o blant ar y rhestr i ddiweddaru eu cynlluniau yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau newydd. Nid oedd plentyn A yn flaenoriaeth gan fod ganddi farciwr oren ar gyfer anghenion cymdeithasol, a oedd yn golygu y gallai fod pryderon emosiynol/ymddygiad blaenorol yn ei chylch ond nad oedd yn un o'r disgyblion oedd angen ystyriaeth ar frys. Ei blaenoriaeth oedd adolygu'r plant hynny oedd angen cynllun dysgu unigol.'

Nid oedd un o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn teimlo eu bod yn gwybod llawer iawn am blentyn A a'i hanes. Mae cofnodion addysg yn dangos yn ei hysgol gynradd a'i hysgol uwchradd flaenorol ei bod wedi cael ei hasesu fel un oedd angen help, ar lefel is, gan 'gweithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy' sy'n golygu y byddai'n gymwys i gael cymorth. Roedd hyn mewn perthynas â'i hanghenion emosiynol ac ymddygiadol.[1]

Ar ddiwrnod y digwyddiad roedd grŵp bach o ddisgyblion yn ymwybodol bod plentyn A wedi dod â chyllell i'r ysgol ond nid oeddent wedi dweud wrth un o'r staff. Roedd plentyn A wedi bod ar goll o wers ac roedd gweithdrefn Cod 9 i olrhain disgyblion coll wedi'i rhoi ar waith. Ni ddaethpwyd o hyd iddi ond roedd hi mewn gwersi hwyrach.

Cafodd Plentyn A ei herio ynglŷn â'i phresenoldeb yn hen adeilad yr ysgol iau, sy'n ardal y rhoddwyd caniatâd i rai disgyblion aros ynddi yn ystod egwyliau os cytunwyd ar hynny gan eu Pennaeth Blwyddyn. Nid oedd gan Blentyn A ganiatâd i fod yno a gofynnodd athro 1 iddi adael fwy nag unwaith. Roedd Plentyn A yn bendant ei meddwl ar ddiwrnod y digwyddiad y dylai hi fod yn gallu aros yn y Neuadd gyda'r lleill, a heriodd athro 1 am hyn. Cafodd ei herio hefyd am

[1] Canllawiau statudol ar Ddeddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg. Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Dylid nodi bod cymorth i blant ag anghenion ychwanegol yn cael ei asesu a'i gefnogi'n wahanol nawr oherwydd deddfwriaeth a chanllawiau newydd. Mae'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) yn cael ei disodli gan y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn digwydd dros bedair blynedd ysgol, rhwng Medi 2021 ac Awst 2025.

wisgo'r wisg anghywir y diwrnod hwnnw. Yn fuan ar ôl yr herio hyn y bu'r digwyddiad critigol, gyda phlentyn A yn ymosod ar athro 1 yn gyntaf.

*Nid bwriad yr adolygiad hwn yw ymchwilio i fanylion yr ymosodiadau a'r hyn ddigwyddodd wedyn gan fod y rhain wedi'u harchwilio'n fanwl yn y ddau dreial troseddol (bu'n rhaid cynnal ail-dreial) ac mewn ymchwiliadau asiantaeth eraill.*

Mae barn yr athrawon ynglŷn â phwyntiau dysgu, yn ogystal â chwestiynau yr oeddent yn teimlo y dylai'r MAPF roi sylw iddynt, wedi'u cynnwys isod.

**Persbectif a Sylwadau'r Dioddefwyr**

- Roedd yn ymddangos bod yr hawl i fod yn y neuadd yn bwysig iawn i blentyn A – a ellid bod wedi caniatáu iddi aros yn y Neuadd gyda'r lleill? A fyddai hynny wedi gwneud iddi deimlo'n fwy diogel a helpu gydag unrhyw heriau cymdeithasol/heriau gyda ffrindiau y gallai fod yn eu profi?
- Roedd disgyblion eraill yn gwybod bod gan blentyn A arf, ond nid oedd neb wedi rhoi gwybod – a oes angen i ddisgyblion ddeall canlyniadau cario arfau'n well?
- Mae angen i wybodaeth ddilyn disgybl pan fydd yn symud ysgol, fel bod yr ysgol newydd yn deall unrhyw broblemau, pryderon neu risgiau.
- Wrth ofyn i rieni wirio bagiau eu plentyn mae'n bwysig bod mesurau eraill yn cael eu hystyried, fel nad cyfrifoldeb rhieni'n unig ydyw – gadawodd plentyn A gartref cyn i'w thad godi ar ddiwrnod y digwyddiad.
- Mae angen i'r holl staff perthnasol gael gwybod am ddisgyblion agored i niwed neu rai sydd ag anghenion ychwanegol.
- Nid oedd yn ymddangos bod plentyn A wedi meithrin unrhyw berthynas ymddiriedol gyda staff ysgol yr oedd hi'n teimlo'n ei bod yn gallu mynd atynt am gymorth.
- Roedd bwlio yn fater parhaus i blentyn A, a nodwyd bod hyn yn digwydd yn bennaf ar y bws ysgol.
- Mae darparu cefnogaeth ddigonol i'r niferoedd cynyddol o ddisgyblion agored i niwed yn her i ysgolion gan fod blaenoriaethau'n cystadlu â'i gilydd am adnoddau.
- Ystyriwyd atgyfeiriad PREVENT ar gyfer plentyn A ond nid aethpwyd ar drywydd hynny.
- Roedd diffyg rhannu gwybodaeth mewn perthynas ag anghenion iechyd emosiynol ac ymddygiad plentyn A mewn lleoliadau addysgol blaenorol.
- Yn dilyn y pryderon blaenorol pan oedd plentyn A wedi dod â chyllell i'r ysgol, a oedd cynllun/asesiad risg addas ar waith, ac a rannwyd y wybodaeth hon â'r bobl angenrheidiol a pherthnasol?
- Mae angen i bob aelod o staff mewn ysgolion feddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am y polisïau/camau gweithredu ar gyfer ataliaeth a rhwystro sefyllfa rhag gwaethygu.

- Nid oedd yr ysgol yn gwybod hyd a lled Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod plentyn A a sut y gallent ddylanwadu ar ei hymddygiad.
- A oedd perthynas effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol o ran cyfathrebu ynghylch ymddygiad plentyn A a deall beth oedd angen digwydd mewn perthynas ag asesiadau anghyflawn o atgyfeiriadau blaenorol?

## 6. Trosolwg yr Adolygydd Annibynnol

Yn yr adolygiad hwn, mae'n bwysig peidio â chanolbwyntio’n unig ar blentyn A fel cyflawnwr trosedd â chyllell. Mae’r system cyfiawnder troseddol wedi delio â hyn. Mae angen i'r dysgu sy’n deillio o'r digwyddiad hwn ganolbwyntio ar blentyn A a'i 'phrofiad byw' yn arwain at a llawer cynharach na diwrnod y digwyddiad critigol. Nid yw hyn yn lleihau effaith ei throsedd na'r trawma i'r rhai yr effeithir arnynt, ond gobeithio bydd yn helpu i gael hyd i unrhyw wybodaeth a dysgu perthnasol ynghylch sut rydym yn helpu pobl ifanc a allai fod â thuedd i fod yn dreisgar.

Cafodd Plentyn A blentyndod cythryblus lle roedd perthnasoedd rhieni’n chwalu, gwelodd gam-drin domestig ac roedd absenoldeb ffigwr mamol cyson a sefydlog yn ei bywyd. Mae'r Heddlu wedi cofnodi sawl digwyddiad domestig yn ymwneud â rhieni plentyn A. Roedd y digwyddiadau hynny rhwng 2011 a 2019. Mae'n debygol bod sawl Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod wedi effeithio ar blentyn A, a gwyddom y gall hynny gael effaith niweidiol hirdymor ar ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol person ifanc.[2]

*"Mae ymchwil wedi dangos bod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod - fel profiad o gam-drin plant, trais domestig, a chamddefnyddio sylweddau gan rieni - yn gysylltiedig â bod yn dreisgar yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mae profiadau bywyd cadarnhaol - megis cysylltiad â theulu, cyfoedion, ysgol, a chymuned - yn gysylltiedig â llai o risg".*

Nid oes unrhyw ffordd o wybod a allai effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod plentyn A ac unrhyw gysylltiadau â thrais yn y dyfodol fod wedi cael eu lliniaru gan fywyd teuluol mwy sefydlog, profiadau ysgol cadarnhaol mwy cyson a/neu well perthnasoedd â chyfoedion, ond mae hwn yn faes a allai fod o ymchwil a diddordeb pellach i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant yr effeithir arnynt gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod pan welir arwyddion cynnar o drais.

Mae'r ymrwymiad ledled Cymru i ddefnyddio arferion sy'n ystyriol o drawma yn gam cadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r anawsterau emosiynol sylweddol sy'n wynebu disgyblion y gall eu canlyniadau addysgol gael eu peryglu oherwydd eu cyflwr bregus.[3] Mae astudiaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor, a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn BMC Public Health, wedi canfod bod "*profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a phrofiadau ysgol negyddol yn cynyddu'r risg o iechyd meddwl a llesiant gwaeth fel oedolion. Mae'r canfyddiadau'n*

---

[2] Adverse Childhood Experiences (ACEs), Research organisation - Centre for Longitudinal Studies (2023)

[3] Astudiaeth Newydd yn Amlygu Effaith Niweidiol yn ystod Plentyndod a Phrofiadau Ysgol ar Iechyd Oedolion.
**Cyhoeddwyd:** 3 March 2025
Astudiaeth newydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor a gyhoeddwyd yn BMC Public Health
[4] Senedd Cymru Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc Adroddiad terfynol 24 Mawrth 2021

*tanlinellu'r angen am ddulliau ystyriol o drawma mewn ysgolion i gefnogi plant sy'n cael amser anodd gartref."*

Mae'r astudiaeth hefyd yn nodi bod *"hawl gan blant i addysg, a hawl i fod yn ddiogel. Mae'r ymchwil hon yn canfod bod y rhai a brofodd fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod gartref hefyd yn fwy tebygol o brofi bwlio a phrofiadau trawmatig yn yr ysgol, a gall profiadau ysgol mwy cadarnhaol helpu i liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'r astudiaeth yn dangos ei bod yn hanfodol ein bod yn cadw ffocws ar ddatblygu system addysg sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru."*

Efallai ei bod yn werth nodi fod plentyn A ymhlith llawer o bobl ifanc yr effeithiwyd ar eu haddysg a'u datblygiad cymdeithasol gan bandemig COVID. Mae ymchwil sy'n awgrymu y gall yr effaith ar ddisgyblion fod yn un barhaol. Mae adroddiad Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn cyfeirio at yr ymateb i'r pryderon hyn.[4]

"*Er ein bod yn cydnabod bod plant a phobl ifanc wedi bod yn llai agored i COVID-19 nag oedolion a diolch am hynny, nid oes amheuaeth bod effeithiau ehangach y pandemig - a'r mesurau a gymerwyd i'w reoli - wedi effeithio'n sylweddol ar eu bywydau a'u hawliau".*

Er bod tad plentyn A yn awgrymu bod plentyn A i weld yn blentyn hapus yn ei blynyddoedd cynradd cyntaf, mae tystiolaeth bod ei chyflwr emosiynol wedi dirywio wrth iddi symud ymlaen trwy'r ysgol gynradd, a phrofodd heriau mwy hyd yn oed yn ei dyddiau ysgol uwchradd. Wrth iddi gyrraedd ei harddegau mae hynny'n debygol o fod wedi ychwanegu at ei chyflwr emosiynol, a oedd yn fregus eisoes. Mae'n anodd gwybod maint heriau plentyn A mewn perthynas â'i hiechyd emosiynol ac a allai unrhyw niwroamrywiaeth fod wedi effeithio ar hyn, gan na chynhaliwyd asesiad neu ddiagnosis penodol ar gyfer niwroamrywiaeth. Ym mis Chwefror 2022, nododd copi o lythyr yng nghofnodion meddyg teulu plentyn A o [Choice assessment] CAMHS nad oedd plentyn A yn cyflwyno salwch iechyd meddwl cymedrol i ddifrifol fel seicosis. Fodd bynnag, ymddengys bod rhai nodweddion a allai gyd-fynd â diagnosis posibl o ASD.

Mae plentyn A yn cael ei ddisgrifio gan staff addysg fel galluog a disglair yn academaidd heb fod angen unrhyw gymorth anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae patrwm o faterion ymddygiadol, cydymffurfio ac emosiynol o'r ysgol gynradd ymlaen. Cafodd drafferth yn ei hysgol uwchradd gyntaf, a oedd yn ysgol Gymraeg ei hiaith. Roedd plentyn A yn bendant ei barn am beth amser nad oedd hi eisiau siarad Cymraeg, ac yn y pen draw symudodd i ysgol lle nad oedd hyn yn ofynnol. Mae'n ymddangos ei bod hi'n hapusach yn ei hail ysgol, er nad oedd hynny heb heriau.

Mae plentyn A yn cael ei gweld fel un 'mympwyol' sydd 'ddim yn ffitio i mewn yn iawn' ac sydd â diddordebau anarferol mewn cofiannau rhyfel, Hitler, chwilfrydedd am arfau ac sy'n honni gallu siarad Almaeneg a Rwseg. Roedd hi'n gadet y Fyddin, ac roedd hi'n dwlu ar hynny yn ôl ei thad, ac efallai fod hyn wedi ysgogi ei diddordeb mewn pethau'n ymwneud â rhyfel, arfau a gwrthdaro. Mae ei thad yn disgrifio ei chariad at ddarllen, ymchwilio i bethau a'i dychymyg byw, gan greu ffantasïau. Roedd hyn yn amlwg yn yr adroddiadau amdani yn yr ysgol. Yn dilyn yr achos cyntaf pan oedd cyllell yn ei meddiant, cafwyd trafodaethau a ddylid gwneud atgyfeiriad i PREVENT, oherwydd pryderon am botensial i radicaleiddio plentyn A. Nid oes tystiolaeth i awgrymu fod atgyfeiriad wedi'i wneud. Mewn trafodaethau diweddarach, pan oedd pryderon

yn parhau i gael eu codi, awgrymwyd y byddai plentyn A yn elwa o waith ieuenctid wedi'i dargedu a chymorth gan y cwnselydd ysgol.

Er efallai nad oedd plentyn A wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer PREVENT, arweiniodd hyn at gynnig asesiad Cymorth Cynnar i ddeall anghenion plentyn A yn gyfannol. Gwnaed yr atgyfeiriad hwn, a chysylltodd y tîm â'r tad, a wrthododd yr asesiad. Pe bai'r asesiad hwn wedi digwydd, gallai hwn fod wedi bod yn llwybr i asiantaethau ystyried cymorth amgen, neu ar gyfer monitro a darparu cymorth.

Ar 13 Hydref 2023, yn ystod ymgynghoriad School in Reach CAMHS, disgrifiodd yr ysgol fod ganddi ymddygiadau unigryw a oedd yn peri iddi sefyll allan oddi wrth gyfoedion yn ddatblygiadol, a bod cyllell wedi'i darganfod yn ei bag ysgol yn ddiweddar, a chysylltwyd â'r Heddlu am hynny. Gwyddom o ymchwil bod trais ddifrifol gynnar yn ddangosydd risg sylweddol uwch o drais i eraill yn y dyfodol. Byddai hyn hefyd yn wir efallai o ran ei diddordeb mewn arfau.

Trafodwyd ymddygiadau hanesyddol mewn perthynas â'r risg o niwed i eraill yn yr asesiad CAMHS cychwynnol ym mis Chwefror 2022, cyn yr amserlen ar gyfer yr adroddiad hwn, ac ni chymerwyd camau pellach mewn perthynas â'r risg hon. Mae'r clinigydd yn esbonio mai oedran ifanc y defnyddiwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am hyn, a'r ffaith bod ei thad yn gwybod am y digwyddiadau. Gallai'r rhagdybiaeth hon fod wedi arwain at gyfle a gollwyd i gasglu rhagor o wybodaeth risg a fyddai, yn ei dro, wedi llywio asesiad mwy cynhwysfawr o risg niwed i eraill. Gallai cwestiynau pellach fod wedi archwilio, mewn ffordd priodol i ddatblygiad, feddyliau a theimladau'r defnyddiwr gwasanaeth, yn ogystal â'i meddyliau neu ymddygiadau cyfredol am drais i eraill neu feddiant ar arfau a allai fod wedi rhoi dealltwriaeth gyfredol o'i risg. Byddai cyfle hefyd wedi bod i archwilio sylwadau ei thad mewn perthynas ag unrhyw ymddygiadau risg ychwanegol. Byddai'r asesiad risg hefyd wedi elwa ar gyswllt ychwanegol ag ysgol gynradd flaenorol y defnyddiwr gwasanaeth, a/neu Arweinydd Diogelu ei hysgol uwchradd gyfredol, i gadarnhau'r wybodaeth ac unrhyw gamau a gymerwyd i reoli'r materion. Mae ymateb seiliedig ar dystiolaeth yn allweddol i ddeall a mynd i'r afael â'r mater hwn yn effeithiol. Mae gwybodaeth ddiweddar gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) [5] ac arbenigwyr eraill yn dangos bod "*y rhesymau pam mae plant yn cario cyllyll yn aml yn gysylltiedig â ffactorau cymdeithasol fel tlodi, ymyleiddio, ofn a thrawma. Rhaid cymryd profiadau byw plant, gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ecsbloetio troseddol, a fictimeiddio, o ddifrif wrth greu atebion.*"

Mae prosiect ymchwil Prifysgol Abertawe, sy'n rhan o'i rhaglen Voices from Research, yn un o nifer o ymdrechion sy'n anelu at ddeall yn well pam mae plant yn cario cyllyll. "*Trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant, gallwn sicrhau bod ein hymateb yn dosturiol ac yn cael ei lywio gan blant.*"

***Archwilio Ymyriadau Cyfredol***

- *Mae archwilio ymyriadau cyfredol yr un mor bwysig. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai cyfyngedig yw llwyddiant rhai strategaethau poblogaidd. Yn aml, aneglur neu wan yw canlyniadau cynlluniau ildio cyllyll, rhaglenni addysg, ac*

[5] Mynd i'r Afael â 'Throseddau Cyllyll Ymhlith Plant' yng Nghymru: Mae Angen Ymateb sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, Mawrth 26, 2025 , Dr Rhian Croke, Arweinydd Ymgyfreithia Strategol ac Eiriolaeth ar Hawliau Plant, Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru

*ymgyrchoedd cyfryngau. Er enghraifft, mae rhai astudiaethau'n awgrymu y gallai ymgyrchoedd yn y cyfryngau gynyddu ofn a gwneud plant yn fwy tebygol o gario cyllyll. Yn yr un modd, nid yw arferion stopio a chwilio yn atal troseddau cyllyll yn effeithiol a gallant effeithio'n anghymesur ar blant Du. Ar ben hynny, dangoswyd bod dedfrydu gorfodol am gyfnod gofynnol yn niweidio plant, gan gynyddu stigma a chyfraddau aildroseddu'n aml.*

***Strategaethau Llwyddiannus***

- *Ar y llaw arall, mae strategaethau sy'n canolbwyntio ar ddargyfeirio ac ymyrraeth gynnar wedi profi'n fwy effeithiol. Mae rhaglenni fel Dargyfeiriad Cyn y Llys wedi arwain at ostyngiad o 13% mewn aildroseddu, ac mae gan Gymru hanes cryf o ran gweithredu rhaglenni dargyfeirio. Mae Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd y dulliau hyn.*
- *Mae asesiadau wedi'u teilwra sy'n ystyried materion ehangach fel addysg, tai, ac iechyd meddwl hefyd yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion sylfaenol plant sydd wedi bod ynghlwm wrth droseddau cyllyll. Mae'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, sy'n gweithio ar y cyd â gwasanaethau eraill ledled Cymru, mewn sefyllfa dda i gynnig dull sy'n caniatáu cymorth mwy effeithiol, unigol ac yn lleihau'r tebygolrwydd o niwed hirdymor".*

Yn dilyn asesiad CAMHS, anfonwyd Holiadur Sgrinio Awtistiaeth (ASQ) at dad plentyn A, a wnaeth ei gwblhau a'i ddychwelyd. Awgrymodd canlyniadau'r rhain, ynghyd ag arsylwadau o'r asesiad CAMHS, fod angen ymchwilio ymhellach i ddiagnosis Awtistiaeth. Nodwyd yng nghofnodion cyfarfod y strategaeth ym mis Hydref 2023 fod yr ysgol yn mynd i fynd ar drywydd atgyfeiriad posibl ar gyfer asesiad ASD, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o gynnydd o ran hyn.

Ymddengys fod rhywfaint o ddryswch a oedd plentyn A ar restr aros ar gyfer asesiad ASD, a deallir bod amser aros o sawl blwyddyn i gael asesiad unwaith mae rhywun ar y rhestr. Roedd y tad yn ymwybodol y dylai geisio atgyfeiriad pe bai newid o ran iechyd meddwl.

Mae patrwm trwy gydol yr adolygiad o gofnodion asiantaeth sef plentyn A a'i thad yn cael cynnig cymorth a chefnogaeth ond yn gwrthod hynny neu fod dim yn cael ei wneud ynghylch hynny.

Mae cofnodion y gwasanaethau plant yn datgelu lefel gyson o gyfranogiad amlasiantaethol yn amgylchedd teuluol plentyn A, gan gynnwys sawl adroddiad am ddigwyddiadau domestig lefel is. Er bod sawl cofnod wedi'u nodi, maent yn digwydd dros gyfnod o bron i ddeng mlynedd ac o ganlyniad nid ydynt yn cael eu hystyried yn ddigon cyson.

Mae cofnodion y gwasanaethau plant yn dangos tystiolaeth o gynnwys plentyn A a'i thad mewn asesiadau a thrafodaethau ar sut i sicrhau cymorth a chefnogaeth briodol. Fodd bynnag, gellir gweld bod heriau o ran ymgysylltu; gan mai'r teimlad oedd bod y meini prawf ar gyfer ymyrraeth statudol ddim yn cael eu bodloni, cynigiwyd cymorth ataliol/cymorth cynnar, ac ymyriadau i'r teulu. Fodd bynnag, nid oedd y tad neu blentyn A yn dilyn trywydd y gwasanaethau cymorth cynnar bob amser. Efallai fod sawl ffactor wedi dylanwadu ar hyn nad ydynt wedi'u harchwilio'n llawn fel rhan o'r adolygiad hwn.

Dylai diffyg ymgysylltiad tad Plentyn A o ran y cynnig o asesiad cymorth cynnar fod wedi cael ei gyfathrebu yn ôl i'r Tîm Atgyfeirio Canolog (CRT) er mwyn cynnal dadansoddiad pellach o'r

wybodaeth oedd ar gael. Ar y pwynt hwn, efallai fyddai ymyrraeth ar lefel wahanol wedi cael ei hystyried o gofio sefyllfa deuluol plentyn A a'r materion hysbys ar y pryd.

Roedd yn amlwg fod Plentyn A yn cael ei gweld fel dioddefwr (ac yn cael ei thrin felly gan yr Heddlu) pan wnaeth yr honiad mewn perthynas â digwyddiad ar y bws ysgol. Roedd hyn yn briodol, ond bryd hynny mae'n ymddangos nad oedd dealltwriaeth lawn o'r pryderon ehangach am fwlio a phlentyn A yn cario arfau, ac nid oeddent ychwaith wedi'u hasesu yn nhermau'r risg y gallai plentyn A ei hun ei hachosi i eraill.

Trwy gydol ymwneud yr asiantaethau â'r teulu, mae'n ymddangos na chysylltwyd â mam geni plentyn A, sydd â Chyfrifoldeb Rhiant ac yr oedd plentyn A yn cael cysylltiad â hi, ac na ofynnwyd iddi gyfrannu at asesiadau neu gynlluniau, felly ni chafwyd ei chyfraniadau. O ystyried bod plentyn A yn dal i gael cysylltiad â'i mam, byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael ei mewnbwn i gael dealltwriaeth o blentyn A a'i hymddygiad.

I gloi, mae'n deg dweud bod plentyn A wedi wynebu nifer o heriau yr oedd gan asiantaethau rywfaint o ymwybyddiaeth ohonynt ar wahanol adegau ac mewn gwahanol ffyrdd. Roedd gan bob asiantaeth ei darnau ei hun o'r jig-so, ac o roi'r holl ddarnau at ei gilydd ceir darlun llawer cliriach o hyd a lled y pryderon ynghylch cyflwr meddwl plentyn A a'i hymddygiadau cysylltiedig.

Mae'n bwysig dweud nad oedd unrhyw wybodaeth oedd gan asiantaethau wedi nodi gallu clir i ragweld y digwyddiadau syfrdanol ac annisgwyl ym mis Ebrill 2024.

Mae'n bosibl, fodd bynnag, y gallai plentyn A fod wedi elwa ar gymorth oedd wedi'i dargedu'n fwy pe bai'r holl wybodaeth wedi'i rhannu a'i hasesu'n llawn. Ar adegau, mae tystiolaeth o ddiffyg 'chwilfrydedd proffesiynol' ynghylch sut oedd plentyn A yn cyflwyno ei hun, ei hanes a sut oedd hynny'n effeithio arni o bosibl fel rhywun yn ei harddegau. Roedd diffyg ymgysylltiad plentyn A a'i thad, ar adegau, yn rhwystr i'r ddealltwriaeth hon. Roedd absenoldeb oedolyn y gallai ymddiried ynddo ymhlith yr asiantaethau yn golygu nad oedd neb wedi ennill ymddiriedaeth plentyn A ac yn deall ei hymddygiad a'r hyn y gallent ei olygu.

Mae tystiolaeth o arfer da y mae'r adolygiad wedi'i ddal a pharodrwydd ymysg y rhai sy'n ymwneud â'r mater i fyfyrio a rhannu mewn modd agored a thryloyw. Mae llawer o'r gwersi a ddysgwyd eisoes wedi'u gweithredu oherwydd bod asiantaethau ac ysgolion wedi ymateb yn rhagweithiol i'r digwyddiad critigol. Peth da yw gweld yr ymrwymiad amlasiantaethol i weithio mewn modd adferol sy'n ystyriol o drawma a'r graddau mae'r ymagwedd hon wedi'i mabwysiadu ar draws yr asiantaethau.

Mae'n amhosibl gwybod a ellid, gyda'r cymorth a'r gefnogaeth gywir, fod wedi atal plentyn A rhag gwneud yr hyn wnaeth hi, ac felly pwysicach yw canolbwyntio ar sicrhau bod y dysgu o'r adolygiad hwn yn cael ei ddal a'i weithredu. Mae'n ymddangos bod ymrwymiad enfawr gan yr asiantaethau dan sylw i wneud hynny.

## 7. Y Digwyddiad Dysgu

Cynrychiolwyd yr asiantaethau canlynol yn y Digwyddiad Dysgu, ac roedd pob un ohonynt wedi cael rhyw gysylltiad â'r teulu.

Asiantaethau a gynrychiolwyd:

- Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin

- Gwasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin (gan gynnwys cynrychiolaeth o ysgolion perthnasol)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Gofal Sylfaenol a Nyrsio Ysgol)
- Heddlu Dyfed-Powys
- Tîm Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin

Cyflwynwyd y Digwyddiad Dysgu gan Gadeirydd y Panel a'i drefnu gan yr Adolygydd Annibynnol.

Fel y soniwyd uchod, ystyriodd y Digwyddiad Dysgu yr amserlen cysylltiadau a digwyddiadau ar gyfer y cyfnod 24 Ebrill 2022 i 24 Ebrill 2024.

Gofynnwyd i weithwyr proffesiynol ystyried y cwestiynau canlynol (ymdrinnir â'r ymatebion yn yr adran nesaf):

- Beth aeth yn dda - arferion da?
- Beth ydych chi'n teimlo nad aeth yn dda?
- Beth ddylen ni ei wneud yn wahanol – beth rydyn ni wedi'i ddysgu?
- Pa gamau mae angen i ni eu cymryd i sicrhau bod unrhyw ddysgu yn newid beth rydyn ni'n ei wneud yn y dyfodol?

Rhoddwyd cyfle i'r mynychwyr ystyried yr amserlen, yr adolygiad llenyddiaeth, themâu posibl a mewnbwn tad plentyn A a'r dioddefwyr. Cafwyd sesiynau grŵp strwythuredig i ganiatáu trafodaethau amlasiantaethol manwl mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd. Cafodd yr holl ymatebion eu dal a'u defnyddio i lywio'r pwyntiau dysgu isod a'r argymhellion. Mae'r rhain yn gasgliad o'r prif bwyntiau rannwyd yn y digwyddiad.

## 8. <u>Ymarfer a Dysgu Sefydliadol</u>

### 8.1 Beth aeth yn dda ac a oedd arferion da?

**Cyfathrebu, rhannu gwybodaeth a chadw cofnodion**

Gwnaed atgyfeiriadau mewn perthynas â phryderon a chynhaliwyd cyfarfodydd strategaeth priodol. Er bod hyn yn gadarnhaol, gallai canlyniad yr atgyfeiriadau a'r cyfarfodydd strategaeth fod wedi arwain at gamau gweithredu a chanlyniadau gwell (fel y gwelir isod).

Mae'n arfer da, pan fethodd staff yr ysgol siarad â rhiant plentyn A, eu bod yn dilyn hyn gydag ymweliad cartref.

Ymddengys bod cofnodion ysgol yn gynhwysfawr ac wedi'u diweddaru.

Roedd presenoldeb plentyn A yn yr ysgol yn dda, ac roedd hi'n gallu cael mynediad i'r cwricwlwm a pherfformio'n dda yn academaidd mewn sawl maes.

**Y digwyddiad critigol**

Ar ddiwrnod y digwyddiad, roedd y weithdrefn o 'gloi' yr ysgol wedi bod yn dda iawn. Roedd y broses a'r polisi yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Roedd cyswllt da rhwng CRT a'r ysgol. Yn dilyn y digwyddiad, roedd yr ysgol yn glir ac yn arddangos arweinyddiaeth dda wrth gefnogi

staff a disgyblion ac wrth ymateb i'r dysgu ar ôl y digwyddiad. Roedd tystiolaeth o Gyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaethau Plant ac Addysg yn cynnal gwaith amlasiantaethol effeithiol.

Yn ddiweddar, roedd yr ysgol wedi buddsoddi mewn hyfforddiant i staff ar Team Teach (dull cymeradwy o ataliaeth) a sicrhau bod y gweithdrefnau cloi yn gyfredol a bod pawb yn eu deall.

Ymatebodd y gwasanaethau brys ar y cyd yn gyflym ac yn rhagorol, a chafodd y rhai oedd angen sylw meddygol sylw'n ddi-oed.

**8.2 Beth ydych chi'n teimlo nad aeth yn dda?**

**Trefniadau pontio**

Pan newidiodd plentyn A o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, a symud o un ysgol uwchradd i'r llall ganol blwyddyn, efallai y byddai wedi helpu pe bai holl hanes perthnasol plentyn A wedi ei dilyn hi a phe bai'r sawl oedd yn derbyn yr hanes hwnnw yn gallu deall ei oblygiadau.

**Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth**

Gallwn weld o'r cofnodion asiantaeth fod gwahanol weithwyr proffesiynol (ynghyd â thad a phlentyn A) yn meddu ar wybodaeth a allai, petai wedi cael ei rhannu'n fwy effeithiol ac mewn modd amserol, fod wedi darparu trosolwg mwy cynhwysfawr o blentyn A, ei hanes, ei gwendidau, ei chryfderau a'i hanghenion.

**Asesiadau a chamau dilynol**

Dywedir bod Plentyn A wedi mynd ag arfau i'r ysgol o'r blaen (unwaith mewn ysgol flaenorol, ac unwaith yn ysgol A). Roedd y ddau achos hyn cyn y digwyddiad critigol, a chofnodwyd y digwyddiad yn ysgol A, oedd o fewn cyfnod yr amserlen, gyda'r Heddlu ac aethpwyd ar drywydd hynny. Roedd angen i weithwyr proffesiynol amlasiantaethol asesu'r materion diogelu/risg a mynd i'r afael â hwy. Gwnaed hyn mewn cyfarfod strategaeth, lle cytunwyd bod angen cyngor pellach gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (ceisiwyd y cyngor hwn a chafodd ei roi). Ar ben hynny, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i atgyfeiriad i PREVENT.

Roedd pwyntiau allweddol pan allai anghenion plentyn A fod wedi cael eu hasesu'n llawn o safbwynt gwybyddol ac iechyd a llesiant emosiynol, er mwyn deall pa gymorth a chefnogaeth oedd eu hangen arni ac er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau posibl yn cael eu rheoli'n effeithiol. Nid oedd y ddibyniaeth ar y tad a phlentyn A i fynd ar drywydd apwyntiadau ac i gyfrannu at asesiadau wedi caniatáu i asiantaethau gasglu'r holl wybodaeth oedd ei hangen arnynt. Mae diffyg eglurder ynglŷn â chanlyniadau rhai apwyntiadau iechyd. Bu ymweliad â'r adran damweiniau ac achosion brys pan adawodd y tad a phlentyn A cyn y gellid cwblhau brysbennu, ond nodir ei fod wedi mynd i'r feddygfa ar ôl hynny i ofyn am help.

Mae tystiolaeth o drafodaethau yn digwydd mewn fforymau amlasiantaethol, ond yna diffyg pendantrwydd wedi'r trafodaethau hyn o ran gweithredu camau penodol y cytunwyd arnynt a chynlluniau SMART. Pan gytunwyd ar gynlluniau, ni chawsant eu rhannu ymhlith yr holl weithwyr proffesiynol bob amser ac nid oeddent i gyd yn eu deall bob tro ychwaith, ac nid adolygwyd cydymffurfiaeth â'r camau y cytunwyd arnynt bob amser.

Er ei bod yn gadarnhaol bod trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth wedi'u cynnal, nid oedd y rhai oedd â gwybodaeth ddefnyddiol i'w rhannu wastad yn mynychu'r rhain, a oedd yn golygu bod bylchau mewn gwybodaeth / dealltwriaeth feirniadol.

**Gweithio gyda rhieni sy'n tynnu'n ôl/ddim yn ymgysylltu**

Pan fydd rhieni neu bobl ifanc eu hunain “ddim yn cydymffurfio" neu'n defnyddio strategaethau osgoi, gall hyn fod yn heriol. Pan fydd hyn yn digwydd, mae’n bwysig adolygu hynny fel y gall y plant yn y teuluoedd hynny gael eu monitro/helpu o hyd. Er ei bod yn ddymunol gweithio gyda theuluoedd mewn partneriaeth anstatudol, sy'n seiliedig ar gryfderau, weithiau mae angen ystyried a oes materion osgoi/tynnu'n ôl a allai fod yn atal plentyn rhag bod yn ddiogel neu dderbyn cymorth angenrheidiol mewn modd amserol.

## 8.2 Beth ydyn ni'n ei wneud yn wahanol a beth rydyn ni wedi'i ddysgu?

**Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth**

Fel y nodwyd uchod, mae angen adolygu'r modd caiff cyfarfodydd strategaeth eu trefnu a’u cofnodi i sicrhau bod yr holl bobl berthnasol yn mynychu a bod cofnodion clir yn cael eu cadw ar gyfer pob asiantaeth o'r cynllun ar gyfer y plentyn.

Mae angen rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol ar draws systemau ehangach a chael trafodaethau proffesiynol i greu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn y mae'r wybodaeth a rennir yn ei olygu.

Nododd Arweinydd y Tîm Nyrsys Ysgol, lle roedd atgyfeiriadau iechyd yn cael eu gohirio neu heb gael eu dilyn, y gallai'r Nyrs Ysgol helpu i oruchwylio a chefnogi wrth gydlynu atgyfeiriadau ac apwyntiadau.

Gellid gwella gallu ysgolion i brosesu gwybodaeth amlasiantaethol pe bai systemau integredig gwell, gyda system 'faneri' lle mae pryderon.

Mae'n bwysig bod asiantaethau yn cydnabod yr angen i gynnwys a rhannu gwybodaeth â'r oedolion hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Gellid cryfhau rhannu gwybodaeth ar draws ysgolion a chyda chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod cyfnodau pontio. Gallai hyn helpu i sicrhau bod hanes perthnasol a risgiau/pryderon cyfredol yn cael eu dal.

Gallai rhannu gwybodaeth electronig mewn modd mwy cadarn ar draws asiantaethau helpu i sicrhau mynediad hawdd i weithwyr proffesiynol sydd angen gwybod cefndir neu hanes pobl ifanc y gallent fod yn poeni amdanynt.

**Canllawiau ar arfau mewn ysgolion**

Mae gwybodaeth a chanllawiau ar gael ar ddelio â disgyblion sy'n dod ag arfau ac eitemau peryglus i'r ysgol. Mae angen adolygu a diweddaru’r rhain yn rheolaidd. Mae'n hanfodol bod ymateb cymesur i'r risgiau yn cael ei gynnal, ac amgylchiadau unigol yn cael eu hasesu a'u rheoli'n gymesur heb greu amgylchedd sy'n rhy wrth-risg a chyfyngol.

**Helpu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed**

Mae angen ystyried sicrhau bod cymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd pan fyddant ar restrau aros hir – mae angen ffyrdd o olrhain y rhai sy'n aros, gydag ymateb graddedig i atal unrhyw broblemau rhag gwaethygu.

Mae effaith COVID, heriau economaidd a chynnydd mewn tlodi plant ymhlith y rhesymau pam mae rhagor o blant angen help, gydag adnoddau dan bwysau ar draws pob asiantaeth. Felly mae gofyn bod yn fwy creadigol a dyfeisgar i sicrhau bod y rhai sydd angen help yn gallu ei gael ar yr adeg iawn. Mae cynnal gwaith cydweithredol da a diwylliant a rennir o ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn hanfodol.

**8.4 Beth yw'r camau y mae angen i ni eu cymryd i sicrhau bod unrhyw ddysgu yn newid yr hyn a wnawn yn y dyfodol?**

**Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth**

Mae angen mwy o gyfleoedd hyfforddiant amlasiantaethol i adnabod a helpu plant a allai fod yn niwroamrywiol a/neu yn agored i niwed yn emosiynol.

Mae angen i ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod barhau fel blaenoriaeth hyfforddi i bob asiantaeth. Mae potensial ystyried a oes modd creu swydd newydd 'Oedolyn Dibynadwy' sy'n fedrus yn y gwaith ym mhob asiantaeth.

**Cymorth i ddysgwyr agored i niwed**

Mae angen ystyried sut i ddarparu adnoddau digonol er mwyn cefnogi perthnasoedd a chymorth cynnar mewn ysgolion ac asiantaethau eraill. Mae galw am fwy o gymorth bugeiliol i helpu'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cael trafferth gyda materion iechyd a llesiant emosiynol, sydd wedi cynyddu ers COVID. Mae angen cryfhau cefnogaeth yn y maes hwn. Gellid ystyried adolygu rôl y tîm seicoleg addysg i chwilio am ffyrdd o ddefnyddio eu sgiliau.

**Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth**

Mae cyfle i ystyried sut mae asiantaethau yn rhannu gwybodaeth a phryderon am blant sy'n cyflwyno fel rhai sy’n agored i niwed ac yn peri risg, ond nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer PREVENT, gofal a chymorth neu amddiffyn plant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i blant a allai fod yn symud o un ysgol i'r llall, neu pan nad yw rhieni’n derbyn cymorth anstatudol.

Mae angen adolygu canlyniadau cyfarfodydd strategaeth i sicrhau bod yr holl bobl berthnasol yn mynychu a bod cofnodion clir yn cael eu cadw gan bob asiantaeth o'r cynllun ar gyfer y plentyn.

Mae cyfle i ystyried sut y gellir defnyddio technoleg i gasglu gwybodaeth berthnasol i lywio cyfarfodydd strategaeth, er mwyn sicrhau y gellir casglu a rhannu gwybodaeth amlasiantaethol mewn modd amserol.

**Rheoli risgiau**

Mae angen cynnal asesiadau risg unigol fel ymateb safonol pan fydd rhywun yn dod ag arf i'r ysgol, ac mae'n hanfodol bod y gweithdrefnau cytunedig yn cael eu dilyn.

**9. Yr argymhellion**

1. Ystyried ar lefel leol a chenedlaethol sicrhau adnoddau a chapasiti i asiantaethau, ar draws pob sector, er mwyn gallu ymateb i lefelau cynyddol parhaus o gymhlethdod ac angen plant a phobl ifanc, yn enwedig mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cynyddu adnoddau yn genedlaethol i gwrdd â'r galw cynyddol am gymorth bugeiliol a llesiant, gan gynnwys capasiti seicoleg addysg.

2. Dylid ystyried adolygiad amlasiantaethol o gyfarfodydd strategaeth gan ganolbwyntio ar y cofnodi a'r cynlluniau a luniwyd ar gyfer plant a phobl ifanc. Pan nad yw'r trothwyon yn cael eu bodloni ar gyfer y gwasanaeth y cytunwyd arno, mae'n rhaid cael cynlluniau wrth gefn i sicrhau y gellir mynd i'r afael â'r angen trwy ffyrdd eraill.

3. Pob asiantaeth i ystyried blaenoriaethu hyfforddiant, a chynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn ynghylch 'Dyletswydd Prevent', a bod y gweithdrefnau hynny'n cynnwys y camau i'w cymryd ar gyfer atgyfeiriadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf cytunedig.

4. Archwilio'r potensial ar gyfer hwyluso rhannu gwybodaeth gynhwysfawr, berthnasol a chronolegol yn well rhwng asiantaethau i lywio cyfarfodydd strategaeth a chyfarfodydd adolygu eraill, gan ddefnyddio atebion a llwyfannau digidol.

5. Dylai pob asiantaeth gynnig hyfforddiant ar effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a bod yn ystyriol o drawma. Mae angen iddynt ddiweddaru eu gwybodaeth yn rheolaidd *(mae'r ymchwil y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn rhoi sylw i fentrau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng Ysgolion ac asiantaethau eraill; megis Pecyn Cymorth Sefydliadau Ystyriol o Drawma Hyb ACE Cymru (TrACE)*

6. Mae angen hyfforddiant parhaus a chodi ymwybyddiaeth staff sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd sydd efallai'n gwrthod cymorth, i ddeall goblygiadau peidio ag ymgysylltu a lefelau risg pan fyddant yn gweithio heb bwerau statudol.

7. Mae angen cryfhau ac ymgorffori'r hyfforddiant ymhellach ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phlant a allai ddangos arwyddion o niwroamrywiaeth neu lefelau uchel o fregusrwydd emosiynol.

8. Adolygu systemau cofnodi electronig ysgolion i ystyried a ellid cyflwyno un system i sicrhau rhannu gwybodaeth, a sicrhau bod cofnodion yn dilyn disgyblion pan fyddant yn symud lleoliadau addysg.

9. Parhau i atgyfnerthu mewn sesiynau sefydlu, hyfforddiant, polisïau, ac wrth oruchwylio, bwysigrwydd rhannu gwybodaeth amlasiantaethol effeithiol a chyfathrebu da trwy systemau ffurfiol ac anffurfiol – 'cefnogi chwilfrydedd proffesiynol'.

10. Pan fydd oedi cyn caiff plant asesiadau, diagnosis neu driniaeth, oherwydd rhestrau aros hir, mae angen i asiantaethau ystyried sut mae plant o'r fath yn cael eu monitro a'u helpu yn ystod y cyfnod hwnnw.

11. Sicrhau bod negeseuon addysg a chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion ac ar draws cymunedau yn gyson (yn seiliedig ar yr hyn y mae ymchwil yn ei ddweud wrthym) wrth helpu pobl ifanc i ddeall canlyniadau cario arfau, ac iddynt ofyn am gymorth os ydynt yn ystyried gwneud hyn.

## 10. Camau gofynnol

Cyflwynir yr adroddiad hwn i LOG Sir Gaerfyrddin i'w gadarnhau. Ar ôl ei gadarnhau, cysylltir â'r plentyn, y teulu a'r dioddefwyr er mwyn rhannu'r adroddiad â nhw, os ydynt yn dewis manteisio ar y cynnig hwn.

Bydd yr adroddiad wedi'i gadarnhau yn cael ei gyhoeddi'n unol â'r hyn mae'r asiantaethau'n cytuno arno.

Bydd y cynllun gweithredu cysylltiedig i fodloni'r argymhellion yn cael ei oruchwylio gan LOG Sir Gaerfyrddin. Mae cyfrifoldeb ar bob asiantaeth sy'n ymwneud â'r MAPF i weithredu eu hargymhellion priodol.

Bydd Is-grŵp Adolygu Achos CYSUR yn derbyn y dysgu o adroddiadau MAPF, i weld a ddylid rhannu unrhyw ddysgu ar draws y rhanbarth.